



# Addoldai Cymru

Welsh Religious Buildings Trust

Newyddlen  
Gwanwyn  
2018

## Golygyddol

Ers ein newyddlen ddi-wethaf yn Hydref 2017, nid ein staff yn unig sydd wedi bod yn brysur - mae'n penseiri a'n contractwyr hefyd wedi bod wrthi'n gweithio'n galed, yn bwrw ymlaen gyda'r contractau atgyweirio sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer gwaith ar dri o'n hadeiladau. Wrth i ni fynd i'r wasg, mae'r gwaith ar Fethania a Beili Du yn dod i ben - tra bod y gwaith ar Beniel newydd ddechrau. Nid oes gennym y cyllid i gyflawni'r hyn a ddymunem ym Mheniel, felly a wnewch chi ystyried cyfrannu at ein Hapêl. Efallai y gwelwn ni chi yn ein Cyngerdd Mawredog yng Nghricieth ar Fai 5ed?

**Diolch** am eich cefnogaeth - mae'n cael ei gwerthfawrogi! Rydym yn croesawu cyfeillion a chefnogwyr lleol yn ein holl brosiectau amrywiol.



Capel Bethania, Maesteg

## Gwaith adeiladu, Bethania, Maesteg

**G**waith cynnal a chadw ar y to ac atgyweiriadau eraill i Fethania Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n adeilad rhestredig Gradd II\*. Ariennir y gwaith gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cadw a'r Pilgrim Trust. Contractwr: David A Siggery Ltd. Pensaer: Alwyn Jones Penseiri Architects. Bydd y cyllid oddi wrth GDL hefyd yn ein cynorthwyo i gynnal arddangosfa ffotograffiaeth ym Methania ar Fehefin 9fed, 2018. Rhagor o wybodaeth ar gael cyn bo hir.



## Gwaith adeiladu, Beili Du, Pentre-bach



**G**waith cynnal a chadw ar do Beili Du, sy'n adeilad rhestredig Gradd II ym Mhentre-bach, ger Pont Senni, Powys. Ariennir y gwaith gan y cynllun grant 'Mannau Addoli Rhestredig: Cronfa Trwsio Toeau', a ddyfernir gan yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Contractwr: David A Siggery Ltd. Pensaer: Alwyn Jones Penseiri Architects.

## Gwaith adeiladu, Peniel, Tremadog



**G**waith cynnal a chadw ar do Peniel, sy'n adeilad rhestredig Gradd I yn Nhremadog, Gwynedd. Ariennir y gwaith gan y cynllun grant 'Mannau Addoli Rhestredig: Cronfa Trwsio Toeau', a ddyfernir gan yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Contractwr: The Original Roofing Company. Pensaer: Donald Insall Associates.

**E**rbyn hyn, codwyd bron £1,000 gan roddion cyhoeddus. Bydd yr arian a godir gan yr apêl hon yn gymorth i Addoldai Cymru ddenu cyllid pellach gan gyrff dyfarnu grantiau eraill. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn.

# CYNGERDD MAWREDDOG GRAND CONCERT

Er budd adfer pediment Capel Peniel, Tremadog  
In aid of restoring the pediment of Peniel Chapel, Tremadog



Rhys Meirion



Annette Bryn Parri



Wynne Roberts



Côr Rhiannedd y Moelwyn

## Neuadd Goffa Cricieth Criccieth Memorial Hall

Nos Sadwrn Mai 5ed  
Saturday May 5th  
am | at 7.30pm

Tocynnau: £15 llawr, £12 galeri  
Tickets: £15 floor, £12 gallery

Noddir gan | Sponsored by:

*Pritchard a Crittittes* CO. LTD.

Am fwy o wybodaeth a thocynnau, cysylltwch â Swyddfa'r Ymddiriedolaeth:

For more information and tickets, contact the Trust Office:

01656 728400

post@addoldaicymru.org

[www.addoldaicymru.org](http://www.addoldaicymru.org)

[www.welshchapels.org](http://www.welshchapels.org)

Tocynnau i'w cael yn lleol gan:

Tickets available locally from:

Siop Newsday, Criccieth

Siop Eifionydd, Porthmadog



Addoldai Cymru

Sain gan | Sound by Gwyn Hughes



Edwin Humphreys



Kev Bach

Addoldai Cymru  
Canolfan Eglwys Wesley  
Wesley Church Centre  
Heol Maesteg, Tondu  
Penybont-ar-Ogwr  
CF32 9BT

Elusen Gofrestredig 1084030  
Registered Charity 1084030  
Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3870343  
Company Limited by Guarantee 3870343

Cofrestrwyd yng Nghymru | Registered in Wales

## Cyhoeddiadau newydd ar gael yn fuan :

Llwybr Ffydd Bedyddwyr Cymru: yn amlinellu hanes capeli'r Bedyddwyr yn ardal Pen-y-bont



## Anghydfurfaeth Gymreig:

Bywyd capel y gorffennol mewn lluniau



## Rhowch Rodd os gwelwch yn dda

Mae haelioni ein cefnogwyr yn bwysig iawn i'n gwaith. Gellir defnyddio eich rhodd naill ai ar gyfer gwaith mewn adeilad penodol, neu ar gyfer ein gwaith yn gyffredinol. Mae sawl ffordd i roi.

**Drwy wefan MyDonate:** Ewch i [www.btplc.com/mydonate](http://www.btplc.com/mydonate) a gosodwch ein henw neu ein rhif elusen **1084030** yn y blwch 'Donate to charity'.

**Drwy eich banc:** Gyrrwch siec, trefnwch archeb sefydlog, neu cyfrannwch yn uniongyrchol i'n cyfrif banc ni: **HSBC 40-16-02 31518097** (rhowch gyfeirnod er mwyn i ni nodi gan bwy mae'r rhodd)

### Cymorth Rhodd

Os ydych yn talu treth incwm y DU, gallwn hawlio 25% yn ychwanegol ar ben eich rhodd gan Gyllid a Thollau EM, heb unrhyw gost i chi. Gofynnwch i ni am ffurflen.

### Bod yn Gyfaill Addoldai Cymru

A wnewch chi ystyried ymuno â Chyfeillion Addoldai Cymru? Bydd eich tanystrifiad yn fodd i'r Ymddiriedolaeth dderbyn rhodd fechan ond hynod ddefnyddiol. Mae aelodaeth yn agored i bawb, ar gost o £10 y flwyddyn. Mae ffurflen aelodaeth a ffurflen archeb sefydlog banc ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth, neu cysylltwch â swyddfa'r Ymddiriedolaeth.

Mae mwy o wybodaeth a ffurflenni ar ein gwefan [www.addoldaicymru.org](http://www.addoldaicymru.org) a chwiliwch am y botwm Rhoddion.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn cymorth grant gan Cadw, adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, i gynnal rhan sylweddol o'i chostau beunyddiol. Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth am ragor o wybodaeth. Byddwn yn falch o glywed gennych chi!

Ebost: [post@addoldaicymru.org](mailto:post@addoldaicymru.org)

YMDDIREIDOLAETH ADDOLDAI CYMRU, CANOLFAN EGLWYS WESLEY, HEOL MAESTEG

TONDU, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF32 9BT

[www.addoldaicymru.org](http://www.addoldaicymru.org)

Elusen Gofrestredig 1084030

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3870343